Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17 Ebrill 2008

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU'R TAFOD GLAS (CYMRU) 2008

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod yng Nghymru er mwyn cael dod â Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 i rym yn unol â Lloegr. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud ar 16 Ebrill 2008, a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ebrill 2008 a byddant yn dod i rym ar 26 Ebrill 2008.

Bydd y Rheoliadau hyn, sy'n dirymu ac yn ail-wneud gyda newidiadau Gorchymyn y Tafod Glas (Rhif 2) (Cymru) 2007, yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen er mwyn galluogi gweithredu rhaglenni brechu sydd wedi'u rheoli'n briodol, er mwyn i'r diwydiant ffermio yng Nghymru allu'i amddiffyn ei hun yn erbyn y clefyd trwy frechu. Maent yn parhau i weithredu Cyfarwyddiaeth y Cyngor 2000/75/EC sy'n gosod darpariaethau penodol ar gyfer rheoli a dileu'r Tafod Glas. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EC) (Rhif 1266/2007).

Dan y ddeddfwriaeth bresennol (Gorchymyn y Tafod Glas (Rhif 2) (Cymru) 2007), nid oes modd rheoli sut y caiff y brechiadau eu dosbarthu, na mynnu brechiadau gorfodol lle bo angen, heb gostau anghymesur sylweddol.

Ers ymddangosiad y Tafod Glas seroteip 8 (BTV-8) yng ngogledd Ewrop (ac erbyn hyn mewn rhai rhannau o Loegr) mae'r gwaith o reoli'r clefyd wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngiadau symud. Fodd bynnag, hyd yn oed petai'r cyfyngiadau hyn yn cael eu gweithredu'n llym ni fyddai hynny'n gwarantu na fyddai'r clefyd yn lledu am nad oes modd rheoli'r gwybed sy'n cario'r clefyd. O'r herwydd, gallai gweithredu rhaglen frechu leihau lledaeniad haint y Tafod Glas yn sylweddol a chyfyngu ar faint yr ardal lle ceir achosion ohoni, gan gyfrannu i'r gwaith o'i reoli a'i ddileu o bosibl, ac atal colledion wrth gyfyngu ar effaith clefydau clinigol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Gohebiaeth.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Ym mis Rhagfyr 2007 rhoddodd DEFRA archeb i'r cwmni fferyllol 'Intervet' gyflenwi 22.5 miliwn o ddosau o frechiad BTV-8 i'w ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr. Cedwir 2.5 miliwn o ddosau i'w defnyddio yng Nghymru petai angen. Mae Intervet wedi dweud y dylai'r casgliadau cyntaf o'r brechiad fod yn barod i'w defnyddio ar ôl dechrau mis Mai 2008.

Dan gyfraith y Gymuned Ewropeaidd, ni chaniateir brechu yn erbyn y Tafod Glas ond mewn Parth Gwarchod. Wrth i'r brechiadau gael eu rhoi ac unwaith y bydd y gwaith o frechu'n mynd yn ei flaen ar draws y Parth Gwarchod, mae'r rhaglen frechu bresennol yn erbyn y Tafod Glas yn amlinellu bwriad i estyn neu addasu'r Parth Gwarchod er mwyn galluogi rhagor o frechiadau. Bydd hyn yn brechu fesul tipyn wrth i gyflenwadau o'r brechiad gyrraedd. Fodd bynnag, pan fydd y brechiad ar gael am y tro cyntaf ym mis Mai, bydd hynny mewn casgliadau cymharol fach. Bydd angen cyfyngu felly ar argaeledd brechiadau yn y Parth Gwarchod yn ôl y cyflenwadau o'r brechiad a'r sefyllfa o ran heintio. Rhaid felly rheoli y modd y caiff y brechiad ei ddosbarthu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro na chaniateir defnyddio'r brechiad yn erbyn y Tafod Glas ond o dan drwydded (gan ei gwneud yn bosibl i reoli'r ardaloedd lle caiff y brechiad ei ddefnyddio); yn cyflwyno rheolau o ran cael brechiad (er mwyn sicrhau bod ar y brechiad ar gael yn yr ardaloedd hynny lle mae'r perygl o ran y clefyd ar ei uchaf) ac yn caniatáu brechu'n orfodol, naill ar eiddo unigol neu mewn parth.

Mae angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 26 Ebrill 2008 i sicrhau cysondeb gyda Lloegr, lle daw deddfwriaeth debyg i rym ar yr un dyddiad, er mwyn sicrhau y byddai ffermwyr Cymru'n cael brechu eu stoc yn ddi-oed petai Parth Gwarchod rhag y Tafod Glas yn cael ei gyhoeddi yng Nghymru. O'r herwydd bydd rhaid torri'r rheol 21 diwrnod, er mwyn i'r Rheoliadau allu dod i rym ar 26 Ebrill 2008.

Oherwydd prinder amser, nid oes ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cynnal ar y Rheoliadau hyn. Serch hynny, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn a'r Rheoliadau wedi cael eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir